


# Polisi Asesiadau Di-Arholiad

**Dyddiad y mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:** 17 Mai 2018

Llofnod y Cadeirydd: ________________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:** 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: ________________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ________________________________________________

## Adolygiadau o'r marcio – marciau a asesir gan y ganolfan (Asesiadau dan Reolaeth TGAU, gwaith cwrs TAG, asesiadau di-arholiad TAG a TGAU

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi ymrwymo i sicrhau fod gwaith ymgeiswyr yn cael eu marcio'n deg, yn gyson ac yn unol â manyleb a dogfennau cysylltiedig penodol i bwnc y corff dyfarnu pan fo staff y ganolfan yn gwneud y marcio.

Bydd gwaith ymgeiswyr yn cael eu marcio gan staff sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgìl priodol, ac sydd wedi'u hyfforddi yn y gweithgaredd hwn. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi ymrwymo i sicrhau fod gwaith a gynhyrchir gan ymgeiswyr wedi'i ddilysu yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Lle bo nifer o athrawon pwnc yn ymwneud â marcio gwaith ymgeiswyr, bydd safoni a chymedroli mewnol yn sicrhau cysondeb y marcio.

1. Bydd y ganolfan yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'u marciau a asesir yn y ganolfan er mwyn iddyn nhw allu wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan os oes angen cyn cyflwyno'r marciau i'r corff dyfarnu.

2. Bydd y ganolfan yn hysbysu ymgeiswyr y gallan nhw wneud cais am gopïau o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un a ydyn nhw am wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan o'r asesiad.

3. Bydd y ganolfan, yn brydlon ar ôl derbyn cais am gopïau o ddeunyddiau, yn sicrhau eu bod ar gael i'r ymgeisydd.

4. Bydd y ganolfan yn darparu digon o amser i ymgeiswyr i adolygu copïau o ddeunyddiau ac i gyrraedd penderfyniad.

5. Bydd y ganolfan yn darparu terfyn amser clir i ymgeiswyr gyflwyno cais am adolygiad o farcio'r ganolfan. Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad cau hwn. **Rhaid** gwneud ceisiadau am adolygiadau o'r marcio yn ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth.

6. Bydd y ganolfan yn caniatáu digon o amser i gynnal adolygiad o'r marcio, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd o'r canlyniad cyn terfyn amser y corff dyfarnu.

7. Bydd y ganolfan yn sicrhau bod yr adolygiad o'r marcio yn cael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd hwnnw yn y gorffennol ac heb unrhyw ddiddordeb personol yn yr adolygiad.

8. Bydd y ganolfan yn cyfarwyddo'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan.

9. Bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu mewn ysgrifen o ganlyniad adolygiad o farcio'r ganolfan.

10. Bydd Pennaeth y ganolfan yn cael ei hysbysu o ganlyniad adolygiad o farcio'r ganolfan a bydd yn cael ei gofnodi fel cwyn. Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw a fydd ar gael i'r corff dyfarnu os gofynnir amdano. Os yw adolygiad o farcio'r ganolfan yn amlygu unrhyw anghysondebau yn y trefniadau, bydd y corff dyfarnu'n cael gwybod ar unwaith.

Gall y broses safoni a gyflawnir gan y cyrff dyfarnu arwain at newid marciau, naill ai i fyny neu i lawr, hyd yn oed ar ôl adolygiad mewnol. Mae'r broses adolygu fewnol ar waith i sicrhau cysondeb marcio o fewn y ganolfan, tra bod cymedroli gan y corff dyfarnu yn sicrhau bod marcio'r ganolfan yn unol â safonau cenedlaethol. Mae'r marc a gyflwynir i'r corff dyfarnu yn destun newid ac felly dylid ei ystyried fel marc dros dro.